**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf: P-05-996
Ein cyf: FM-/01372/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

deisebau@senedd.cymru

4 Awst 2020

Annwyl Gadeirydd

Diolch am dynnu fy sylw at Ddeiseb P-05-996 yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â symud, difrodi na dinistrio unrhyw symbolau hanesyddol yng Nghymru.

Mae'r mudiad Black Lives Matter wedi amlygu nifer o faterion sydd angen i ni fynd i'r afael â nhw fel gwlad, ac un o'r rhain yw'r angen i fyfyrio ar natur y pethau gweledol sy'n ein hatgoffa o orffennol ein gwlad sy'n bodoli mewn cymunedau ledled Cymru.

Er mwyn ein helpu yn y broses fyfyrio hon, rwyf wedi cyhoeddi ein bod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r cyfrifoldeb o gynnal archwiliad o henebion a chofebion hanesyddol, enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus, sy'n gysylltiedig â hanes cymunedau du yng Nghymru, ac yn enwedig y fasnach mewn caethweision.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i weithio tuag at Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r archwiliad hwn yn waith pwysig o safbwynt hybu cydraddoldeb pobl a chymunedau ledled Cymru.

Ar ôl cwblhau'r archwiliad, byddwn yn ystyried ymateb priodol. Fodd bynnag, byddai'n amhriodol awgrymu beth allai'r rhain fod ar hyn o bryd.

Amgaeaf ddolen i'm datganiad ysgrifenedig yn nodi mwy o wybodaeth am yr archwiliad: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-archwilio-henebion-cyhoeddus-enwau-strydoedd-ac-adeiladau-syn-gysylltiedig.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.